**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID**

**Adroddiad ar amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2010**

**Cefndir:**

1. Mae Rheol Sefydlog 27 yn nodi'r hyn a ganlyn:

***Yr Ombwdsmon***

> *27.15 Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i'r Pwyllgor Cyllid cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag.*
>
> *27.16 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad, heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon a chymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo.*

2. Cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2010 i'r Pwyllgor Cyllid ar 8 Hydref 2008 (Atodiad A). Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn fod yr ombwdsmon, Peter Tyndall, wedi derbyn ei wahoddiad i drafod y gyllideb yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Hydref.

**Adroddiad**

3. Trafododd y pwyllgor y cais am gyllideb adnoddau o £3.279 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o 4.4% ar y gyllideb ar gyfer 2008-09 [Cyflwyniad Atodiad 1]. Nododd fod llwyth gwaith yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynyddu 30% yn hanner cyntaf y flwyddyn gyfredol [Cyflwyniadau 3.1, 3.2], oedd yn llawer mwy na'r lefel a ragwelwyd pan ystyriwyd y gyllideb ar gyfer 2008-09. Dywedodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wrth y pwyllgor [ROP 10] fod y nifer o achosion cymhleth wedi cynyddu'n sylweddol a bod y gwasanaeth o dan gryn bwysau [ROP 11]. Roedd hyn wedi arwain at ddirywiad sylweddol o ran cyrraedd y targedau ar gyfer ymdrin ag achosion [ROP 8, 9], lefelau uchel o oramser a'r angen am staff dros dro [ROP 12]. Erbyn hyn, nid oedd staff yr ombwdsmon yn gallu darparu'r lefel o wasanaeth y credai y dylai'r cyhoedd ei ddisgwyl.

4. Nododd yr Aelodau fod yr ombwdsmon yn wynebu cynnydd yn ei lwyth gwaith o ganlyniad i basio'r *Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG* [ROP 19]. Roeddent hefyd yn croesawu'r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar sicrhau bod ei wasanaeth ar gael i bobl sydd yn y grwpiau mwyaf difreintiedig a'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned sydd yn fwyaf tebygol o fod angen help wrth wneud cwyn. [ROP 4].

5. Nododd y pwyllgor fod yr ombwdsmon yn gallu penodi mwy o staff tra ei fod, mewn termau real, yn rhewi'r costau nad ydynt yn ymwneud â staff, a oedd eisoes yn eithaf isel. [ROP 26].

**Canlyniad**

6. Cydnabu'r Pwyllgor Cyllid y cynnydd mewn llwyth gwaith sy'n wynebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a oedd yn uwch nag a ragwelwyd y flwyddyn cynt, ac a oedd yn debygol o barhau i gynyddu. Nododd yr angen i ymdrin ag achosion mewn llai o amser. Croesawodd y pwyllgor ymrwymiad yr ombwdsmon i'w gwneud yn haws i bobl yn y grwpiau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed yn y gymuned ddefnyddio'r gwasanaeth.

7. Yn gyffredinol, penderfynodd y pwyllgor fod y gyllideb arfaethedig a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2010 yn rhesymol a derbyniol a chytunodd i'w osod heb ei newid.

**Angela Burns AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Y Pwyllgor Cyllid – 16 Hydref 2008**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:**
**Amcangyfrifon am y Flwyddyn Ariannol 2009-10**

## 1. Cyflwyno amcangyfrifon

1.1 Dyma'r ail amcangyfrif i gael ei gyflwyno fel sy'n ofynnol yn ôl paragraff 15 atodlen 1 Deddf OGCC fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau statudol (heblaw am fy nghyflog, costau nawdd cymdeithasol a phensiwn, sy'n gost uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru). Dyma'r amcangyfrif cyntaf i mi ei gyflwyno ers fy mhenodi fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 21 Ebrill 2008 i olynu Mr Adam Peat, a oedd wedi sefydlu'r swyddfa. Hoffwn dalu teyrnged i'w waith, sydd wedi creu sylfaen gref ar gyfer datblygiadau pellach.

1.2 Wrth baratoi'r amcangyfrif hwn yr wyf wedi derbyn cyngor y Pwyllgor Archwilio o dan gadeiryddiaeth annibynnol Laurie Pavelin CBE FCA. Mae ganddo wybodaeth drylwyr a phrofiad helaeth o gyllid a chyfrifo yn y sector cyhoeddus ac mae hyn yn rhoi cryn sicrwydd i mi wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.

## 2. Nodau ac amcan

2.1 Fy niben fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yw ymchwilio mewn ffordd annibynnol ac amhleidiol i gwynion a wnaethpwyd gan y cyhoedd ynghylch y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Disgwyliaf i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithlon. Os byddaf yn cadarnhau cwyn byddaf yn argymell ffordd o wneud iawn am unrhyw gamwedd. Mae gennyf rôl bwysig hefyd i ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

2.2 Fy nod yw darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru trwy:

(a) ymchwilio i gwynion mor drylwyr ag sydd ei angen ac mor gyflym â phosibl

(b) codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Ombwdsmon a'i gwneud yn rhwydd i ddefnyddwyr posibl ei ddefnyddio

(c) defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod fy ymchwiliadau i hybu arferion da a llywodraethu da gan gyrff cyhoeddus

(d) sicrhau llywodraethu da a rheoli effeithiol yn fy swyddfa.

2.3 Yr wyf wedi amlinellu manylion isod yn erbyn y nodau uchod fel cost net OGCC gan gynnwys fy nghyflog a chostau cysylltiedig ac fel canrannau.

| | Cost Net 2007-08 | |
|---|---|---|
| | £'000 | % |
| Ymchwilio i gwynion mor drylwyr ag sydd ei angen ac mor gyflym â phosibl | 2,113 | 76.3 |
| Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Ombwdsmon a'i gwneud yn rhwydd i ddefnyddwyr posibl ei ddefnyddio | 219 | 7.9 |
| Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod fy ymchwiliadau i hybu arferion da a llywodraethu da gan gyrff cyhoeddus | 290 | 10.5 |
| Sicrhau llywodraethu da a rheoli effeithiol yn fy swyddfa | 146 | 5.3 |
| **Costau gweithredu net** | **2,768** | **100.0** |

2.4 Yr wyf wedi gwneud sylwadau ar bob un o'r nodau hyn isod. Ceir manylion llawnach am gyflawniadau yn Adroddiad Blynyddol 2007/08.

(a) **Ymchwilio i gwynion**

- Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fy mhrif rôl yw ymchwilio i gwynion a wnaethpwyd gan y cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff sy'n rhan o fy awdurdodaeth. Mae'r cyrff sy'n dod o fewn fy awdurdodaeth yn cynnwys llywodraeth leol (cynghorau sir/bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned); y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion); a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun (yn ymarferol, Llywodraeth Cynulliad Cymru) ynghyd â'r cyrff a noddir ganddo.

- Mae gennyf hefyd rôl i ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad).

(b) **Codi ymwybyddiaeth a hygyrchedd**

- Defnyddir gwasanaethau cyhoeddus gan nifer anghymesur o bobl sy'n perthyn i grwpiau agored i niwed a/neu rai sydd mewn perygl o gael eu hallgau. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddynt fynediad at wasanaeth di-dâl a diduedd sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w gofynion a bod fy ngwaith allgyrraedd yn cael ei dargedu at godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl a fyddai heb lais fel arall. I gyflawni hynny, yr wyf yn ymdrechu i gydweithio'n agos gyda chyrff sy'n cynrychioli grwpiau allgaeedig a difreintiedig ac sy'n eiriol ar eu rhan.

- Yn ystod 2007-08 ychwanegwyd fersiynau Pwyleg a Somali o'r daflen **Sut i Gwyno am Gorff Cyhoeddus** at y rhai sydd ar gael eisoes mewn Arabeg, Bengali, Cantoneg ac Wrdw. Mae'r daflen ar gael ar fy ngwefan yn yr ieithoedd hyn a gellir ei darparu ar ffurf tâp neu CD

hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd wedi ymweld â'r wefan ac yn y defnydd a wneir o'r ffurflen gwyno ar-lein. Yr wyf yn bwriadu gwneud hyn yn fwy hygyrch fyth yn ystod y flwyddyn nesaf.

- Cynhaliwyd digwyddiadau gyda:
  - Chadeiryddion / arweinwyr y cyrff cyhoeddus sydd o fewn fy awdurdodaeth;
  - Mudiadau gwirfoddol;
  - Aelodau a chlercod cynghorau cymuned;
  - Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a'u staff ymchwil, a'r
  - cyfryngau

- Mae sylw yn y cyfryngau i adroddiadau sydd o fudd i'r cyhoedd wedi bod yn gyfrwng pwysig i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi caniatáu i ni gynnwys atodiad am ddim yn eu cylchlythyrau cymunedol. Hefyd, trefnwyd cyflwyniadau gerbron amrywiaeth eang o fudiadau a grwpiau â diddordeb.

(c) **Dysgu gwersi, hyrwyddo arferion da**

- Yn 2007-08, cyhoeddodd fy swyddfa ddwy set o ganllawiau statudol ar **Egwyddorion Llywodraethu Da** ac **Egwyddorion Unioni Cam.** Mae'r ddau gyhoeddiad, ynghyd â'r **Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddelio â Chwynion** a gyhoeddwyd eisoes, ar gael ar fy ngwefan.

- Yn ystod y flwyddyn nesaf, yr wyf yn bwriadu cyhoeddi canllaw i aelodau awdurdodau lleol ar y Cod Ymddygiad newydd. Yr wyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi crynodebau o achosion yr wyf wedi ymchwilio iddynt o ran cwynion a wnaethpwyd yn erbyn cyrff cyhoeddus.

- Yr wyf wedi datblygu cysylltiadau gyda rheoleiddwyr a chyrff sy'n darparu gwasanaethau i sicrhau y gallaf godi mwy o ymwybyddiaeth o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil fy ymchwiliadau ac yn hybu gweithredoedd i wella gwasanaethau.

(a) **Llywodraethu a rheoli fy swyddfa**

- Yn ogystal â gwaith y Pwyllgor Archwilio y cyfeiriwyd ato eisoes, aethpwyd ati i baratoi cais ar gyfer y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl yn ystod 2007-08. Hefyd, buddsoddwyd yn sylweddol mewn system rheoli gwybodaeth a fydd yn gweithio gyda'r system weinyddol sy'n delio â chwynion a dros amser bydd yn galluogi deddfwriaeth berthnasol, achosion cynsail a gwybodaeth perthnasol arall i gael eu hystyried wrth gynnal ymchwiliadau o fath penodol.

## 3. Darparu gwasanaethau

3.1 Yn dilyn tuedd y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am wasanaethau'r swyddfa'n parhau i gynyddu. Er bod 2006-07 wedi gweld cynnydd o 10% yn nifer yr achosion newydd o'i gymharu â 2005-06, y llynedd (2007-08) gwelwyd cynnydd o 10% pellach o'i gymharu â 2006-07. Nododd fy

rhagflaenydd, Adam Peat, yn ei gyflwyniad ei fod yn rhagweld llwyth achosion o 1,600 yn 2007/08 ac y byddai hynny'n codi i 1,700 yn 2008/09. Wrth nodi hynny, tynnodd sylw'r Pwyllgor Cyllid at y ffaith pe bai'r llwyth achosion gwirioneddol yn fwy na'r hyn a ragwelwyd y byddai'n rhaid gwneud cais am gyllid ychwanegol. Byddai'n rhaid gwneud hynny er mwyn galluogi'r gwasanaeth i achwynwyr barhau i gael ei ddarparu i safon dderbyniol.

3.2 Yr oedd union nifer yr achosion newydd a dderbyniwyd yn 2007-08 yn 1,650. Hefyd, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol, gwelwyd cynnydd o 30% yn y llwyth achosion i gymharu â'r un cyfnod yn 2007-08. Ar sail y ffigur hwn, byddai hyn yn golygu llwyth achosion o 2,150 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol – sy'n llawer uwch na'r 1,700 a ragwelwyd gan Adam Peat yn ei gyflwyniad i chi'r llynedd. Mae hyn yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar staff fy swyddfa ac ni fydd modd parhau i ddarparu gwasanaeth ar yr un lefel â'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn heb gynnydd yn nifer y staff. Mae mesurau i symleiddio prosesau, i ddefnyddio technoleg ac i reoli adnoddau'n well i gyd yn yr arfaeth neu wedi'i rhoi ar waith eisoes, ond ni fydd mesurau o'r fath yn unig yn ddigon i ymdopi â chynnydd o 30% yn y llwyth gwaith.

3.3 Credaf fod y cynnydd yn y llwyth gwaith yn deillio o fwy o ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon a mwy o barodrwydd ar ran defnyddwyr gwasanaeth i herio arferion gwael a methiannau mewn gwasanaethau. O gofio bod y duedd wedi bod ar i fyny'n gyson ers lansio'r swyddfa, nid oes gennyf amheuaeth na welir cynnydd pellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 4. Rhagdybiaethau

4.1 Wrth baratoi'r amcangyfrifon hyn gwnaethpwyd y rhagdybiaethau canlynol:

(a) cyflog a chostau cysylltiedig gan gynnwys symudiadau cynyddrannol o 4%
(b) pensiynau 5% yn seiliedig ar y data RPI diweddaraf
(c) cynnydd o 3% mewn costau eraill.

Hyd yma ni wyddys pa bryd y cwblheir y setliad cyflog Llywodraeth Leol yn daladwy o Ebrill 2008.

## 5. Costau cyflogaeth

5.1 Mae hyn yn cynnwys costau cyflogau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chostau'r cynllun pensiwn.

5.2 **Staffio:**

(a) O ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am y gwasanaeth yr wyf am wneud cais am arian ychwanegol i dalu am ddwy swydd. Yr wyf wedi amcangyfrif y bydd y llwyth gwaith cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i gael dau swyddog asesu pellach â ynghyd swyddog cymorth gweinyddol a fyddai'n gweithio i brosesu cwynion. Fodd bynnag, dymunaf benodi un swyddog asesu llawn amser ar gost blwyddyn

lawn o £35k yn ogystal ag un swyddog cymorth gweinyddol, a fydd hefyd yn fy ngalluogi i wella'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gost o £25k. Er mwyn ariannu'r llwyth gwaith ychwanegol yr wyf yn cynnwys swm ychwanegol o £10k o dan ffioedd proffesiynol i fy ngalluogi i ddefnyddio staff ar gontractau yn ôl y gofyn i ddelio â chyfnodau o gynnydd yn y llwyth gwaith. Mae gwasanaethau eraill tebyg wedi mabwysiadu'r model hwn yn llwyddiannus. Mae'r gost ychwanegol wedi'i chynnwys yn y gyllideb ffioedd proffesiynol. Yr wyf yn arbennig o awyddus i benodi ymchwiliwr cyswllt wedi'i leoli yn y Gogledd i wella'r gwasanaeth a gynigir yno ac i ddatblygu ymhellach y gwasanaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg yn y swyddfa. Bydd hyn yn osgoi'r costau sefydlog sy'n gysylltiedig â chanolfan ychwanegol a bydd yn ysgafnhau'r pwysau ar elfen deithio a chynhaliaeth fy nghyllideb.

(b) Yr wyf hefyd yn bwriadu penodi archwilydd mewnol i wella trefn lywodraethu fy swyddfa ac i roi sicrwydd i mi yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Bydd y gost hon yn cael ei thalu o gyllidebau presennol.

(c) Yr wyf hefyd yn gobeithio cael cyllid ychwanegol i fy ngalluogi i gyflwyno rhai newidiadau i uwch reolwyr y swyddfa a fydd yn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'n well. Nod hyn yw darparu cymorth i mi ar y lefelau uchaf a hefyd i roi strwythur graddio gwell i'r swyddfa trwy oresgyn y clystyru tyn gyda gwahaniaethu bychan rhwng lefelau rheoli. Amcangyfrifwyd y bydd costau newidiadau o'r fath yn £63.5k.

(d) Bu newid arall a grybwyllwyd yng nghyflwyniad y llynedd, sef cyflogi cyfieithydd rhan amser, yn anodd ei gyflawni. Yr oedd yn rhaid talu cost y gwaith hwn o gostau'r swyddfa a'r gyllideb gyfathrebu. Yr wyf felly wedi newid y ddarpariaeth heb unrhyw gost ychwanegol.

(e) Y strwythur cyfundrefnol arfaethedig gan gynnwys y swyddi ychwanegol yw:

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 2.0 |
| Rheolwyr tîm | 3.0 |
| Timau ymchwilio | 26.0 |
| Cymorth ymchwilio | 8.0 |
| Cymorth gweithredol | 2.0 |
| Cymorth corfforaethol | 4.2 |
| Cyfanswm | 45.2 |

5.3 **Trefniadau pensiwn -** Mae tri chynllun pensiwn yn weithredol a'r prif gynllun yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae effaith pob un o'r cynlluniau pensiwn hyn ar gyllid y Swyddfa'n wahanol iawn. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw reolaeth na dylanwad dros ddau o'r cynlluniau ond rhaid i mi geisio amcangyfrif y gost bosibl o flwyddyn i flwyddyn. Hefyd, nid yw manylion y gost ariannol yn hysbys tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Y tri chynllun dan sylw yw:

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil - Mae costau pensiwn y cyflogwr yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy ac mae'r cyfraniadau'n

cael eu pennu'n flynyddol o fewn amrediadau cyflog. Nid oes dim arall yn effeithio ar y cyfrifon terfynol. Oherwydd cyfraddau cyfrannu is dylid nodi bod y costau ar gyfer 2009-10 wedi gostwng £12k.

(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro (LGPS) - OGCC yw corff cydnabyddedig y cynllun uchod o hyd gyda phedwar aelod gweithredol. Mae'n gynllun caeedig gan nad yw'n derbyn aelodau newydd. Y gyfradd gyfrannu gyfredol yw 21%. Mae'r newidiadau cyfredol i'r farchnad arian yn debygol o gael effaith andwyol ar asedau'r cynllun a thrwy hynny ar gyllid y swyddfa. Ni fydd goblygiadau hyn yn hysbys tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol a maent tu allan i'm rheolaeth i.

(c) Pensiynau ar gyfer cyn Ombwdsmyn – Mae fy swyddfa'n talu pensiynau cyn Ombwdsmyn Llywodraeth Leol Cymru'n uniongyrchol ac i unrhyw ddibynyddion sy'n fyw gyda hawliadau pensiwn dilys. Mae'n ofynnol talu taliad ariannol blynyddol y pensiynau hyn; amcangyfrifir bod hynny'n £75k y flwyddyn ar gyfer 2009-10. Mae'r pensiynau hyn yn codi o dan y Gorchmynion Cynyddu Pensiynau a'r codiadau yn y blynyddoedd diwethaf oedd:

| | |
|---|---|
| Ebrill 2007 | 3.6% |
| Ebrill 2008 | 3.9% |
| Ebrill 2009 | 5.0% (cynnydd tebygol). |

Unwaith eto, ni fydd y wybodaeth hon yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol a maent tu allan i'm rheolaeth i.

## 6. Adeiladau

6.1 Mae tymor prydles y swyddfa ym Mharc Bocam, Pencoed yn ymestyn dros gyfnod o ddeng mlynedd a daeth i rym ym mis Ionawr 2005. Yn ôl telerau'r brydles mae ymrwymiad i ail baentio'r adeilad yn ystod y bumed flwyddyn felly rhaid cynnwys y ddarpariaeth honno yn yr amcangyfrifon ar gyfer 2009-10. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y cyfrifon adnoddau ond bydd angen yr arian yn 2009-10. Yn y flwyddyn honno hefyd bydd cynnydd yn y rhent sy'n deillio o'r adolygiad rhent 5 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd y codiad yn 20% - sy'n rhoi cynnydd blynyddol o £36k, a bydd yr effaith yn 2009-10 yn £12k. Mae'r costau tanwydd yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord. Cyfrifwyd y bydd y cynnydd mewn costau tanwydd yn 20% sy'n golygu cynnydd o £4k y flwyddyn.

## 7. Ffioedd proffesiynol

7.1 Mae hyn yn cynnwys ariannu cymorth a chyngor allanol a ddarperir i'r swyddfa. Mae'n cynnwys costau cynghorwyr proffesiynol mewnol ac allanol sy'n rhoi cyngor ar achosion gwasanaeth iechyd. Darperir y gwasanaethau hyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Fel y nodwyd yng nghyflwyniad y llynedd mae'r rhain yn golygu mwy o dreth ar adnoddau'r swyddfa o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r angen am wasanaethau o'r fath yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod y dull mwyaf cost effeithiol yn cael ei fabwysiadu. Yr wyf o'r farn bod angen cynyddu'r ddarpariaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf ac yr wyf wedi trosglwyddo arian o'r gyllideb ar gyfer costau swyddfa.

## 8. Cyfathrebu

8.1 Mae'r gyllideb hon wedi'i chadw ar yr un lefel. Mae ei heffaith ar hwyluso ymwybyddiaeth a gwella hygyrchedd i grwpiau ymylol ac agored i niwed i'w weld yn amlwg yn y galw am wasanaethau'r swyddfa. Mae modd cynyddu'r gweithgarwch hwn ymhellach.

## 9. Costau teithio a chynhaliaeth

9.1 Yr wyf wedi adolygu ffigurau'r flwyddyn gyfredol ac yr wyf o'r farn y dylai'r gyllideb sylfaenol barhau yn £55k. Yr wyf o'r farn ei bod yn bwysig bod ymchwilwyr yn cael eu hannog i ymweld ag achwynwyr gan fod hynny'n eu cynorthwyo i ddeall natur y gŵyn ac mae'n golygu gwasanaeth gwell i'r achwynwyr ac i'r cyrff sy'n dod o fewn ein hawdurdodaeth.

## 10. Hyfforddi a recriwtio

10.1 Mae'r swyddfa wedi cynnal rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ac yr wyf yn credu bod hyn yn rhan hanfodol o'n gwaith i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon uchel. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i achosion fynd yn fwy a mwy cymhleth ac wrth i'r sefyllfa ddeddfwriaethol newid yn rheolaidd. Hoffwn ehangu'r rhaglen hyfforddi ac yr wyf felly wedi cynyddu'r ddarpariaeth.

## 11. Costau'r swyddfa

11.1 Gan fod y Swyddfa bellach wedi'i hen sefydlu, mae lefel y costau o redeg y swyddfa'n sefydlog iawn erbyn hyn. Yr wyf yn cynnig felly bod yr amcangyfrif o £120k yn cael ei ostwng a'i fod yn cael ei wrthbwyso yn erbyn y cynnydd mewn cyflogau a ffioedd proffesiynol uwch.

## 12. Incwm

12.1 Mae hyn yn cynnwys llog y banc ac arian arall sy'n cael ei adennill. Nid yw'r swyddfa'n codi costau uniongyrchol am unrhyw un o'i wasanaethau.

## 13. Safonau cyfrifo rhyngwladol

13.1 Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos bod yr effaith ar y swyddfa'n gyfyngedig iawn. Bydd angen caniatáu £20k ar gyfer gwyliau heb ei gymryd fel credydwr ond mae'n annhebygol iawn y bydd yn arwain at unrhyw adnodd ariannol gan y bydd unrhyw daliad yn cael ei wneud ar ôl terfynu yn unig ac mae'r costau hyn yn debygol o ddod o'r gyllideb gyflogau. Mae effaith lawn y gofynion pensiwn yn dal i gael eu gwerthuso ond ni ragwelir unrhyw newid ar hyn o bryd.

## 14. Casgliad

14.1 Mae'r galw am wasanaethau'r Ombwdsmon yn uwch yn awr nag erioed. Er mwyn darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn i'r cyhoedd yng Nghymru, mae'n hanfodol bod digon o adnoddau ar gael i mi. Yr wyf wedi canfod bod yr adnodd net sy'n ofynnol i fy ngalluogi i gyflawni fy swyddogaethau yn 2009-10 yn £3,256,000. Ceir dadansoddiad o'r gyllideb hon, ynghyd â ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn Atodiad 1.

**Peter Tyndall**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Hydref 2008**

*****************************************************************************

**Atodiad 1**

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Amcangyfrifon 2009-10

| | Gwirioneddol 2007-08 | Cyllideb 2008-09 | Amcangyfrif 2009-10 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 1,352 | 1,413 | 1,612 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 102 | 146 | 155 |
| Costau pensiwn | 379 | 367 | 380 |
| | 1,833 | 1926 | 2,147 |
| Adeiladau | 243 | 272 | 295 |
| Systemau cyfrifiadurol a chefnogaeth | 62 | 72 | 74 |
| Costau swyddfa | 89 | 172 | 120 |
| Ffioedd proffesiynol | 204 | 215 | 235 |
| Cyfathrebu | 90 | 95 | 95 |
| Hyfforddi a recriwtio | 69 | 82 | 89 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 28 | 55 | 55 |
| Ffioedd archwilio | 15 | 15 | 15 |
| Dibrisiant | 80 | 131 | 137 |
| Cost cyfalaf | 0 | 5 | 5 |
| Cyfanswm costau gweinyddu | 2,713 | 3,040 | 3,267 |
| Incwm | -6 | -8 | -8 |
| Cyfanswm refeniw | 2,707 | 3,032 | 3,259 |
| Gwariant cyfalaf | 76 | 110 | 20 |
| Cyllido diffyg yn y pensiwn | 75 | | |
| **CYFANSWM** | 2,858 | 3,142 | 3,279 |
| **Di-arian** | | | |
| Dibrisiant a gwaredu asedau | -80 | -131 | -137 |
| Cost cyfalaf | 0 | -5 | -5 |
| Symudiad dyledwyr / credydwyr | -133 | 42 | 70 |
| Trefniadau pensiwn | -45 | | 50 |
| Symudiad darpariaethau | -3 | | -1 |
| | -261 | -94 | -23 |
| **Gofyniad Arian Net** | **2,597** | **3,048** | **3,256** |